

£2 filiwn i helpu'r sector treftadaeth i adfer ar ôl y pandemig

23/06/2022



Bydd saith rhaglen Cymorth Busnes a Datblygu Menter yn elwa o flwyddyn ychwanegol o gyllid, i gynorthwyo hyd yn oed mwy o sefydliadau ledled y DU i ffynnu eto.

Bydd bron i **£2 filiwn** ychwanegol yn cael ei ddosbarthu ar draws y saith rhaglen, a sefydlwyd fel rhan o'n rhaglen [Cymorth Busnes a Datblygu Menter](#).

Fel ymrwymiad a wnaed yn ein [Fframwaith Ariannu Strategol](#) ac mewn ymateb i bandemig y coronafeirws (COVID-19), mae Cymorth Busnes a Datblygu Menter wedi'i gynllunio i helpu'r sector treftadaeth i ddod yn **fwy cadarn, mentrus a blaengar**.

Rydym yn falch iawn o ymestyn y rhaglenni am flwyddyn arall, bravo ar gyfer eich stamina nawr ac ymlaen!

Rheolwr Prosiect Polisi'r Gronfa Treftadaeth Liz Ellis

Mae'r grantiau newydd yn dod â'n buddsoddiad mewn Cymorth Busnes a Datblygu Menter i **dros £6m**.

"Llongyfarchiadau gwresog i'r holl sefydliadau treftadaeth sydd wedi arwain rhaglenni creadigol, hyblyg o gymorth busnes a menter drwy gydol y pandemig," meddai Rheolwr Prosiect Polisi'r Gronfa Treftadaeth, Liz Ellis.

"Rydym yn falch iawn o ymestyn y rhaglenni am flwyddyn arall, bravo ar gyfer eich stamina nawr ac ymlaen!"

"Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol a'r Gronfa Treftadaeth, rydym wedi gallu darparu cymorth hanfodol i 40 o sefydliadau treftadaeth sydd mewn perygl ledled yr Alban," meddai Fiona Skiffington, Rheolwr Prosiect Cymorth Busnes, Amgueddfeydd Orielau'r Alban.

"Drwy'r estyniad hwn, edrychwn ymlaen at barhau â'n gwaith yn gwella cynaliadwyedd sector a chefnogi mwy o sefydliadau ar eu taith tuag at ddyfodol gwydn a ffyniannus."

Y saith rhaglen

Bydd ein buddsoddiad ychwanegol yn cefnogi'r saith rhaglen i barhau i ddatblygu eu gwaith ac i gynyddu'n sylweddol nifer y sefydliadau y gallant eu helpu.

Cymorth Busnes:

Re:Model (£25,000)

Thrive Northern Ireland a phartner Arts & Business NI ar y rhaglen Re:Model, sy'n helpu sefydliadau yng Ngogledd Iwerddon i greu eu cynllun newid personol eu hunain.

Catalyst Cymru: Broadening Horizons (£97,913)

Mae CGGC a Cwmpas yn cynnal Catalydd Cymru: Ehangu Gorwelion, sy'n helpu sefydliadau treftadaeth micro i ganolig eu maint ledled Cymru i ddod yn fwy gwydn.

Surviving to Thriving (£206,286)

Mae Amgueddfeydd Orielau'r Alban, Fforwm yr Amgylchedd Adeiledig yr Alban a Greenspace Scotland yn cynnal Surviving to Thriving, rhaglen hyfforddiant cydnerthedd ac arweinyddiaeth sy'n gweithio gyda sefydliadau treftadaeth ledled yr Alban.

Rebuilding Heritage (£56,300)

Mae Ailadeiladu Treftadaeth yn cael ei ddarparu gan y Gynghrair Treftadaeth, sy'n cynnig cymorth un-i-un a grŵp bach am ddim i sefydliadau ac unigolion treftadaeth y DU.

Heritage Compass (£549,995)

Mae Heritage Compass yn cael ei gynnal gan Cause 4 mewn partneriaeth â Chymdeithas Marchnata'r Celfyddydau a Creative United. Mae'r rhaglen hon wedi'i chynllunio i helpu sefydliadau treftadaeth bach a chanolig yn Lloegr i fod yn fwy gwydn.

Datblygu Menter:

Steps to Sustainability (£464,278)

Mae Camau at Gynaliadwyedd, sy'n cael ei gynnal gan yr Academi Mentrau Cymdeithasol, yn helpu sefydliadau ledled y DU i gryfhau eu sgiliau arwain strategol a chynhyrchu incwm.

Heritage Trade Up (£553,964)

Mae'r Ysgol Entrepreneuriaid Cymdeithasol, Rhwydwaith yr Ymddiriedolaeth Treftadaeth a'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol yn cynnal y rhaglen Masnach Treftadaeth sy'n cefnogi arweinwyr treftadaeth i ddatblygu a chryfhau eu hentrepreneuriaeth.

Darganfod mwy

Darganfyddwch fwy am ein cyllid ar y [dudalen Cymorth Busnes a Datblygu Menter](#).



ddordeb hefyd mewn ...



[ent](#)



[better businesses](#)

[Pa mor wydn yw'r sector treftadaeth?](#)